

Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Comisiwn y Senedd

Tachwedd 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddArchwilio

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Comisiwn y Senedd

Tachwedd 2020



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddArchwilio

Cadeirydd y Pwyllgor:



Nick Ramsay AS
Ceidwadwyr Cymreig

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Gareth Bennett AS
Annibynnol



Angela Burns AS
Ceidwadwyr Cymreig



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	6
1. Cyflwyniad.....	8
2. Adegau arwyddocaol i'r Comisiwn yn 2019-20.....	10
20 mlynedd o ddatganoli.....	10
Diwygio cyfansoddiadol.....	10
COVID-19.....	11
3. Ein gwaith craffu blaenorol ar Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad.....	12
Dangosyddion perfformiad ariannol.....	12
Ymgysylltu.....	12
Staffio.....	13
Caffael.....	13
Cynaliadwyedd.....	14
4. Craffu ar Gyfrifon Blynyddol 2019-20.....	15
Ymateb i COVID-19.....	15
Ein barn ni.....	15
Casgliadau.....	16
Y sefyllfa ariannol.....	16
Ein barn ni.....	17
Llywodraethu a rheoli risg.....	18
Ein barn ni.....	19
Staffio.....	20
Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol.....	20
Llesiant, absenoldeb a pherfformiad.....	20
Proffil y gweithlu.....	21
Ein barn ni.....	24
Casgliad.....	25

5.	Ymgysylltu.....	26
	Ein barn ni	28
6.	Caffael.....	29
	Ein barn ni	30
7.	Cynaliadwyedd	31
	Targedau cynaliadwyedd	31
	Effaith COVID-19 ar ystâd y Senedd	31
	Ein barn ni	32

Rhagair y Cadeirydd

Mae dwyn cyrff a ariennir yn gyhoeddus i gyfrif am sut y maent yn gwario arian wrth wraidd gwaith y Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Un o'r prif ddulliau i ni gyflawni'r rôl hon yw drwy graffu ar adroddiadau blynyddol a chyfrifon cyrff cyhoeddus. Yn ôl yr arfer, mae ein gwaith craffu ar gyfrifon eleni'n cynnwys ystyried Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd. Ar 6 Mai 2020, daeth y newid enw o Gomisiwn y Cynulliad i Gomisiwn y Senedd, fel y deddfwyd ar ei gyfer yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, i rym.

Mae cyfanswm cyllideb y Comisiwn yn gyfran gymharol fach o gyfanswm y gwariant a reolir yng nghyllideb Cymru (0.3 y cant, neu £57.64 miliwn, o gyllideb Cymru, sef bron £20 biliwn). Serch hynny, credwn, fel y corff sy'n gyfrifol am ddarparu adnoddau i'n senedd genedlaethol, y dylai Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn fod yn esiamplau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Dyma ein hadroddiad olaf ar gyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer y Bumed Senedd. Daw ar adeg o ansicrwydd digynsail i'r Comisiwn ac i'r Senedd gyfan. Rydym yn cydnabod yr heriau sylweddol y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu ond, i ni, mae'n amlwg bod y Senedd ar ddechrau cyfnod o drawsnewid. Mae rhywfaint o'r hyn a oedd yn berthnasol yn hydref 2019 yn ymddangos yn llai pwysig yn hydref 2020. Nid yw llawer o'r targedau a osododd y Comisiwn o'r blaen yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru yn llawn.

Gwn y bydd llawer o argymhellion yr adroddiad hwn, os cânt eu derbyn, yn cael effaith sylweddol ar y Comisiwn, ond credwn eu bod yn hanfodol er mwyn i'r Senedd gyrraedd y safonau uchel a bennwyd gan bobl Cymru ar gyfer yr hyn sydd bellach yn senedd genedlaethol iddynt.

Anogaf Gomisiwn y Senedd a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Chweched Senedd i ddatblygu canfyddiadau'r adroddiad hwn wrth i ni ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth y sector cyhoeddus o ran darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Comisiwn y Senedd gael gwared ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn y dyfodol a osodwyd i leihau tanwariant a chanolbwyntio, yn hytrach, ar ddefnyddio adnoddau ariannol mor effeithlon â phosibl.....Tudalen 17

Argymhelliad 2. Dylai Comisiwn y Senedd arwain drwy esiampl drwy osod dangosyddion perfformiad allweddol rheoli ariannol uchelgeisiol sy'n ymdrechu i gael mwy na barn archwilio ddiamod. Dylai'r targedau ystyried pa mor effeithiol, darbodus ac effeithlon y mae'r Comisiwn yn defnyddio ei adnoddau, a dylid eu rhoi ar waith erbyn blwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf.....Tudalen 17

Argymhelliad 3. Dylai'r Comisiwn sicrhau bod arolygon staff yn y dyfodol yn:

- gyson o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau y gellir dod i gasgliadau ystyrlon am dueddiadau tymor hir o'u canfyddiadau;
- gofyn cwestiynau tebyg i arolygon staff deddfwrfeydd a chyrrff cyhoeddus eraill er mwyn i'r canlyniadau gael eu meincnodi.

..... Tudalen 25

Argymhelliad 4. Dylai'r Comisiwn gynnal adolygiad o brofiadau ymgeiswyr o gefndiroedd BAME, drwy gydol y broses recriwtio, gyda'r bwriad o gael gwared ar rwystrau i benodi y mae'r adolygiad yn eu datgelu. Dylid cynnal yr adolygiad o fewn blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd. Dylai canfyddiadau'r adolygiad fod ar gael i'r Pwyllgor olynol, ynghyd â chamau adferol y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu cymryd..... Tudalen 25

Argymhelliad 5. Dylai'r Comisiwn sicrhau bod ei borth recriwtio newydd yn casglu data am amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ei weithlu a'i ymgeiswyr. Dylid cynnwys y data hyn yn adroddiadau data amrywiaeth blynyddol y Comisiwn yn yr un fformat ag y mae'r Comisiwn wedi'i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr BAME (h.y. gyda data sy'n ymwneud â phob cam o'r broses recriwtio)..... Tudalen 25

Argymhelliad 6. Dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff amcanion clir a mesuradwy eu pennu ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu, y caiff effaith y gweithgareddau hynny ei holrhain ac y caiff eu canlyniadau eu gwerthuso yn erbyn amcanion i benderfynu a ydynt yn cynrychioli gwerth da am arian. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon yn flynyddol fel rhan o adroddiad blynyddol y Comisiwn.
..... Tudalen 28

Argymhelliad 7. Ddechrau'r Chweched Senedd, dylai'r Comisiwn roi blaenoriaeth i nodi ei grwpiau anodd eu cyrraedd, pennu ffyrdd o ymgysylltu â hwy, a chymryd camau i wneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Dylai'r strategaeth ymgysylltu hon fod ar gael i'r cyhoedd.Tudalen 28

Argymhelliad 8. Dylai'r Comisiwn gynyddu caffael gan gyflenwyr nwyddau a chynhyrchion o Gymru sydd o darddiad Cymreig, oni bai nad ydynt ar gael am gost resymol. Dylai gymryd camau i alluogi mwy o gwmnïau o Gymru i gynnig am gontractau, megis drwy rannu contractau mawr yn rhai llai. Dylai camau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd yn y maes hwn gael eu cyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol wrth i'r ganran gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.Tudalen 30

Argymhelliad 9. Dylai'r Comisiwn weithio ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill, megis Llywodraeth Cymru, i fwyafu'r gyfran a gaffaelir gyda chyflenwyr o Gymru. Dylai'r Comisiwn ysgrifennu at y Pwyllgor hwn neu'r Pwyllgor olynol erbyn mis Medi 2021 i nodi pa ymgysylltiad y mae wedi'i wneud â chyrff cyhoeddus eraill, a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wella gwariant gyda chyflenwyr o Gymru o ganlyniad.Tudalen 30

Argymhelliad 10. Pan fydd y Pwyllgor Busnes, y Bwrdd Taliadau, y Comisiwn ac eraill wedi penderfynu trefniadau busnes y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd, dylai'r Comisiwn gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i dargedau cynaliadwyedd yn sgil COVID-19 a'i effaith ar batrymau gweithio. Dylai'r targedau newydd hyn fod yn fwy beiddgar ac yn fwy uchelgeisiol na'r rhai diwethaf, a dylid eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2021 fan bellaf.....Tudalen 32

1. Cyflwyniad

1. Mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yn gorff corfforaethol a'i ddiben yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae ar Senedd Cymru eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Comisiwn ei hun yn cynnwys pum Aelod o'r Senedd: y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebwyd gan y grwpiau gwleidyddol mwyaf yn y Senedd. Fel corff corfforaethol, mae'r Comisiwn yn berchen ar eiddo ac yn cyflogi staff i reoli ystâd ac adnoddau'r Senedd, i gefnogi trafodion seneddol ac i ymgysylltu â phobl Cymru.

2. Gellir grwpio cyfrifon Comisiwn y Senedd yn ddau faes penodol:

- Cyflogi staff seneddol, cynnal a chadw ystâd y Senedd, a darparu adnoddau a gwasanaethau seneddol eraill.
- Cyflogau, argostau a lwfansau cysylltiedig Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth, a bennir gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

3. Mae cyfrifon y Comisiwn yn adrodd ar faterion ariannol y mae ganddo reolaeth drostynt a materion ariannol nad oes ganddo reolaeth drostynt.

4. Eleni, cafodd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 y Comisiwn eu harchwilio gan Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru (ar y pryd). Llofnodwyd y farn archwilio ddiamod ar 17 Mehefin 2020, fis yn gynharach nag yn 2019, er gwaethaf dechrau pandemig COVID-19. Mae'r datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ar dudalen 147 ymlaen wedi'u harchwilio, ynghyd â thablau penodedig yn yr Adroddiad Taliadau a'r adran staff. Fel gyda'r rhan fwyaf o archwiliadau, nid archwiliwyd gweddill yr adroddiad blynyddol.

5. Cawsom dystiolaeth gan Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd), Suzy Davies AS (Comisiynydd y Senedd sy'n gyfrifol am y Gyllideb a Llywodraethu) a Nia Morgan (Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Senedd) ar 21 Medi 2020¹ i drafod yr adroddiadau a ganlyn:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20
- Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2019-20
- Adroddiad Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer 2019-20

¹ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020

- Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd 2019-20

6. Yn dilyn y cyfarfod ar 21 Medi 2020, gwnaethom ysgrifennu² at y Comisiwn i ofyn am ragor o wybodaeth. Ymatebodd y Comisiwn ar 20 Hydref 2020³.

² Tystiolaeth Ysgrifenedig, Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Comisiwn y Senedd, 22 Medi 2020

³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-22-20 Papur 2, 9 Tachwedd 2020

2. Adegau arwyddocaol i'r Comisiwn yn 2019-20

7. Mae blwyddyn ariannol 2019-20 wedi bod yn llawn digwyddiadau i'r Comisiwn. Yn ystod wythnosau olaf mis Mawrth 2020, caeodd y Comisiwn ddrysau'r Senedd i'r cyhoedd wrth gynnal swyddogaethau hanfodol y llywodraeth yn ystod pandemig. Ar ben hynny, dathlodd 20 mlynedd o ddatganoli a goruchwyllo hynt Bil diwygio cyfansoddiadol pwysig.

20 mlynedd o ddatganoli

8. Cynhaliwyd etholiad cyntaf y Cynulliad ar 6 Mai 1999 a nodwyd 20 mlynedd o ddatganoli ar 6 Mai 2019. Er mwyn cydnabod hynny, lansiodd y Comisiwn Gwlad: Gŵyl Cymru'r Dyfodol er mwyn:

"dathlu ac yn trafod llwyddiannau'r ugain mlynedd diwethaf ond hefyd yn canolbwyntio ar ddyfodol Cymru ac yn cynnwys pobl, grwpiau a sefydliadau ledled y wlad."⁴

9. Cynhaliwyd digwyddiadau yng Nghaerdydd yn ystod mis Medi ac aeth yr ŵyl ar daith i Gaernarfon, Wrecsam a Chaerfyrddin yn ystod mis Tachwedd 2019. Pwysleisiodd y llywydd bwysigrwydd y dathliadau wrth ddechrau 'deialog newydd gyda phobl ledled y wlad am eu huchelgeisiau ar gyfer Cymru a sut y gall y Cynulliad, cartref democratiaeth Cymru, helpu i gyflawni hynny.'⁵

10. Trefnodd y Comisiwn Gynulliad Dinasyddion hefyd fel rhan o'i raglen ddigwyddiadau ugainmlyneddiant. Aeth 60 o bobl i'r Cynulliad Dinasyddion a oedd yn cynrychioli poblogaeth Cymru 16 oed a hŷn. Gwnaethant drafod y cwestiwn 'sut y gall pobl yng Nghymru lywio eu dyfodol?' ac adrodd ar eu canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2019⁶.

Diwygio cyfansoddiadol

11. Hefyd, 2019-20 oedd y flwyddyn pan oruchwylodd Comisiwn y Cynulliad y broses o ddeddfu Bil diwygio cyfansoddiadol pwysig. Cafodd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 12 Chwefror 2019, y Cydsyniad Brenhinol⁷ ar 15 Ionawr 2020.

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Datganoli 20: Nodi 20 Mlynedd o Ddatganoli](#), Mawrth 2019

⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru [Datganoli 20: Nodi 20 Mlynedd o Ddatganoli](#), Mawrth 2019

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Datganoli 20: Cynulliad Dinasyddion](#)

⁷ [Deddf Senedd ac Etholiadau \(Cymru\) 2020](#)

12. Gwnaeth Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

- newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru/Welsh Parliament;
- gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Senedd i 16 oed.
- diwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Senedd.

COVID-19

13. Ataliodd Comisiwn y Senedd weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd y Senedd o 17 Mawrth 2020.⁸ Daeth y cyfyngiadau symud ledled y DU i rym o 23 Mawrth 2020.⁹

14. Ymgwymerodd y Pwyllgor â'r gwaith craffu ar faterion sy'n ymwneud â COVID-19¹⁰ rhwng mis Mai a mis Awst 2020, a oedd yn cynnwys cyfarfod preifat â chynrychiolwyr Comisiwn y Senedd ar 3 Awst 2020. Fodd bynnag, er i ni drafod COVID-19 â'r Comisiwn yn ystod y gwaith craffu ar gyfrifon eleni, mae'r rhan fwyaf o ymateb y Comisiwn i'r pandemig yn perthyn i flwyddyn ariannol 2020-21. Caiff yr effaith ei hystyried yn fanylach wrth graffu ar gyfrifon 2020-21 y Comisiwn yn ystod hydref 2021.

15. Yn y cyfamser, nodir arwydd o effaith y pandemig ar gyfrifon 2020-21 y Comisiwn yn llythyr y Comisiwn at y Pwyllgor Cyllid ar 7 Gorffennaf 2020¹¹.

⁸ Senedd Cymru, [Datganiad Coronafeirws gan Comisiwn y Cynulliad](#), 16 Mawrth 2020

⁹ Gov.uk, [Datganiad Prif Weinidog y DU ar y coronafeirws \(COVID-19\): 23 Mawrth 2020](#), 23 Mawrth 2020.

¹⁰ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Ymchwiliad](#) i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

¹¹ [Tystiolaeth Ysgrifenedig](#), PAC(5)-18-20 Papur 5, 21 Medi 2020

3. Ein gwaith craffu blaenorol ar Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad

16. Yn gyffredinol, mae ansawdd adroddiadau a chyfrifon blynyddol y Comisiwn wedi rhoi sicrwydd i ni drwy gydol y Pumed Cynulliad/y Bumed Senedd. Serch hynny, bu rhai themâu rheolaidd yn ein gwaith craffu dros y blynyddoedd diwethaf.

Dangosyddion perfformiad ariannol

17. Ers y Pedwerydd Cynulliad, un o ddangosyddion perfformiad allweddol y Comisiwn fu i'w wariant gwirioneddol fod mor agos â phosibl at ei wariant wedi'i gyllidebu. Mae'r targedau penodol wedi amrywio rhwng hyd at 0.5 y cant o danwariant cyllideb weithredol (h.y. targed i wario 99.5 y cant o gyfanswm ei gyllideb), ac 1.5 y cant (h.y. targed i wario 98.5 y cant o gyfanswm ei gyllideb). Mae gennym ddau bryder sylfaenol gyda'r dull gweithredu hwn.

- 1.** Nid yw gweithredu o fewn y gyllideb o reidrwydd yn dangos rheolaeth ariannol lwyddiannus na gwerth da am arian. Hoffem i'r Comisiwn ganolbwyntio ei ddangosyddion perfformiad ariannol ar ansawdd ei reolaeth ariannol.
- 2.** Dylai'r holl gyrff cyhoeddus ymdrechu i ddefnyddio adnoddau mor effeithlon ag y gallant. Credwn nad yw anelu at wario canran o'r cyllid sydd ar gael o reidrwydd yn annog rheolaeth ariannol dda.

18. Sawl gwaith, rydym wedi argymhell bod dangosyddion perfformiad allweddol y Comisiwn yn cynnwys targedau sy'n canolbwyntio ar ansawdd rheolaeth ariannol, yn hytrach nag i ba raddau y mae alldro'n cyfateb i'r gyllideb.¹² Nid yw'r Comisiwn wedi derbyn yr argymhellion hyn.

Ymgysylltu

19. Mae'r ffordd y mae'r Comisiwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd wedi bod o ddiddordeb arbennig i ni. Rydym wedi mynegi pryderon o'r blaen ynghylch hygyrchedd gwefan y Cynulliad¹³. Hefyd, rydym wedi annog y Comisiwn i sicrhau

¹² Adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar [gyfrifon 2014-15](#) (tudalen 42), [cyfrifon 2017-18](#) (tudalen 20), [cyfrifon 2018-19](#) (tudalen 3)

¹³ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Craffu ar Gyfrifon 2016-17](#), Chwefror 2018 (tudalen 39)

bod modd i'w raglen ymgysylltu â dinasyddion gael ei darparu a'i bod yn mynd ati i dargedu aelodau o'r cyhoedd nad ydynt ar-lein¹⁴.

Staffio

20. Wrth graffu ar gyfrifon 2016-17, nodwyd bod cyfraddau salwch staff y Comisiwn wedi bod yn codi ers 2013-14¹⁵. Parhaodd y duedd hon i flwyddyn ariannol 2017-18¹⁶, cyn gostwng ychydig yn 2018-19¹⁷. Mae'r Comisiwn wedi awgrymu bod iechyd meddwl yn cyfrannu'n sylweddol i'r duedd tymor hir hon, yn unol â thueddiadau ar draws y sector cyhoeddus yn ehangach. Clywsom fod y Comisiwn yn cymryd camau i chwalu'r stigma sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl ac i gefnogi ei weithwyr¹⁸.

21. Hefyd, mae amrywiaeth staff y Comisiwn wedi bod o ddiddordeb arbennig i ni. Rydym wedi bod yn pryderu bod y rhan fwyaf o staff y Comisiwn o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn y graddau band cymorth tîm a rheoli iau. O'r blaen, rydym wedi argymhell bod y Comisiwn yn gwneud mwy i ymgysylltu â chymunedau BAME a datgelu ei fwch cyflog ethnigrwydd yn ei Adroddiad Blynyddol. Rydym hefyd wedi annog y Comisiwn i gyhoeddi data bwlech cyflog BAME, yn cwmpasu tair blynedd ar y tro, er mwyn galluogi cymariaethau gwell o'r cynnydd a wnaed gyda threigl amser¹⁹. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod hwn yn faes sy'n peri pryder, a'n sicrhau ei fod wrthi'n gweithio i gynyddu cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd BAME ar draws y graddau²⁰.

Caffael

22. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ymddiddori'n arbennig yn y ffordd y mae'r Comisiwn yn caffael adnoddau ac yn eu defnyddio. Yn ystod ein gwaith craffu ar Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon 2017-18, clywsom y byddai'r Comisiwn yn cyflwyno dangosydd perfformiad allweddol a oedd yn ceisio cynyddu cyfran yr

¹⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 Comisiwn y Cynulliad: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus](#), Rhagfyr 2019 (tudalen 7)

¹⁵ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Craffu ar Gyfrifon 2016-17](#), Chwefror 2018 (tudalen 43)

¹⁶ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Craffu ar Gyfrifon 2017-18](#), Mawrth 2019 (tudalen 23)

¹⁷ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 Comisiwn y Cynulliad](#), Rhagfyr 2019, (tudalen 5)

¹⁸ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 Comisiwn y Cynulliad](#), Rhagfyr 2019, (tudalen 6)

¹⁹ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Craffu ar Gyfrifon 2017-18](#), Mawrth 2019 (tudalennau 25 – 26)

²⁰ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Craffu ar Gyfrifon 2017-18](#), Mawrth 2019 (tudalen 26)

hyn sy'n cael ei gaffael gan gyflenwyr o Gymru. Y flwyddyn ganlynol, gwnaethom annog y Comisiwn i ystyried sut i gynyddu gwariant gyda busnesau bach yng Nghymru ar ôl iddo beidio â chyrraedd ei darged, sef i 43 y cant o gyfanswm gwariant cyflenwyr fod gyda chwmnïau o Gymru²¹.

Cynaliadwyedd

23. Rydym hefyd wedi gofyn i'r Comisiwn fod yn fwy uchelgeisiol yn ei ddull o wella cynaliadwyedd. Credwn yn gryf y dylai'r Comisiwn fod yn arwain y ffordd o ran gostwng ei effaith amgylcheddol, gan osod esiampl i gyrff cyhoeddus ar draws Cymru. Rydym wedi croesawu'r camau cadarnhaol niferus y mae'r Comisiwn wedi'u cymryd, ac rydym wedi annog mwy o waith i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan²², lleihau'r plastig a'r trydan a ddefnyddir²³.

²¹ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 Comisiwn y Cynulliad](#), Rhagfyr 2019 (tudalen 8)

²² Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Craffu ar Gyfrifon 2017-18](#), Mawrth 2019 (tudalen 27)

²³ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 Comisiwn y Cynulliad](#), Rhagfyr 2019 (tudalen 9)

4. Craffu ar Gyfrifon Blynyddol 2019-20

Ymateb i COVID-19

24. Dechreuodd ein gwaith craffu ar gyfer 2019-20 drwy drafod effaith COVID-19 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a llunio'r cyfrifon blynyddol. Clywsom nad oedd y cyfyngiadau symud wedi cael effaith fawr ar y naill na'r llall, a bod Archwilio Cymru yn gallu darparu adroddiad archwilio glân i Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn heb addasiadau nac argymhellion. Cawsom ein sicrhau gan y Prif Weithredwr a Chlerc bod yr holl broses yn gweithio'n llyfn iawn fwy neu lai.²⁴

25. Fodd bynnag, nid yw'n syndod i ni glywed hefyd y byddai'r pandemig yn cael effeithiau eraill ar y Comisiwn. Esboniodd y Prif Weithredwr a Chlerc nad oedd rhai staff yn gallu cymryd gwyliau blynyddol, ac y byddai'r diwrnodau y mae ganddynt hawl iddynt yn cael eu cario i'r flwyddyn nesaf. Yn ariannol, bydd rhai costau'n codi yng nghyllideb y Comisiwn ei hun (h.y. ac eithrio costau sy'n ymwneud â'r Aelodau) a'r rhan ar gyfer gwariant sy'n ymwneud â'r Aelodau (e.e. ar gyfer gwaith glanhau a chyfarpar). Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod cydbwysedd ar y cyfan.²⁵

26. Tynnodd Suzy Davies AS, Comisiynydd y Senedd sy'n gyfrifol am y Gyllideb a Llywodraethu, sylw at nifer o bethau i'r Comisiwn a'r Aelodau a'u staff eu dysgu yn sgil y pandemig. Nododd y manteision o ran cynaliadwyedd a gostyngiad yn yr ôl troed carbon, ond hefyd yr effaith gymysg ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yr Aelodau a'r staff²⁶.

Ein barn ni

27. Fel gyda llawer o sefydliadau ar draws Cymru, cytunwn fod gwersi i'w dysgu yn sgil y pandemig y gallwn eu cynnwys yn y cyfnod adfer a'r tu hwnt. Mae rhai o'r gwersi hynny'n berthnasol i'r Comisiwn, mae rhai'n berthnasol i'r Aelodau, ac mae llawer yn berthnasol i bob un ohonom.

28. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod effeithiau a chanlyniadau'r ffordd rydym wedi gweithio yn ystod pandemig COVID-19 yn anhysbys o hyd. Gobeithiwn y bydd y Comisiwn yn rhoi o'i amser i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i ymateb i'r pandemig cyn iddo ymrwmo i newidiadau yn y dyfodol.

²⁴ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 36

²⁵ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 47

²⁶ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 50

Casgliadau

Casgliad 1. Rydym yn canmol y Comisiwn am ei ymdrechion wrth hwyluso busnes y Senedd yn ystod COVID-19 a sicrhau y gall staff y Comisiwn, yr Aelodau a'u staff cymorth barhau i weithio'n ddiogel.

Casgliad 2. Rydym yn llongyfarch Comisiwn y Senedd am archwiliad llwyddiannus heb addasiadau nac argymhellion. Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac yn cefnogi adroddiadau data cynnar, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19.

Y sefyllfa ariannol

29. Mae'r Comisiwn wedi nodi £1.2 miliwn o danwariant cyfanredol yn erbyn cyfanswm ei gyllideb net (ac eithrio gwariant a arweinir gan y galw, o'r enw Gwariant a Reolir yn Flynyddol neu GRF) £56.0 miliwn, sef 2.1 y cant.

30. Fodd bynnag, pan na fyddwn yn cynnwys cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff cymorth, tanwariant y Comisiwn oedd £473,000, neu 1.2 y cant²⁷. Mae hyn o fewn targed y Comisiwn, sef tanwariant rhwng 0 y cant ac 1.5 y cant. Roedd £473,000 yn cynnwys:

- tanwariant £1,153,000 mewn cyflogau staff a chostau cysylltiedig;
- gorwariant £533,000 mewn costau nad ydynt yn gostau staff (sylwer y dangosir costau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol yng nghyfrifon 2018-19);
- gorwariant £147,000 mewn gwariant cyfalaf.

31. Esboniodd y Prif Weithredwr a Chlerc mai un rheswm dros y tanwariant ar gyflogau staff oedd bod y Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi arwain at nifer o swyddi gwag staff. Ar adeg cyllidebu, nid oedd yn bosibl gwybod yn union pwy fyddai'n gadael a faint o amser y byddai'n cymryd recriwtio pobl yn eu lle. Ychwanegodd Nia Morgan, y Cyfarwyddwr Cyllid, fod tanwariant ar staffio yn cael ei gynnwys yn y gyllideb i ragweld lefel gymedrol o swyddi gwag staff. Dywedodd y canlynol:

“The VES was never intended to save money; it was to allow the Commission to look at the staff complement and reskill in those areas that were required. So, it was the time that we took to reappoint staff

²⁷ Cyfrifwyd drwy rannu'r alldro adnoddau net £473,000 (gwariant y Comisiwn) â £40.291 miliwn, sef cyfran y Gyllideb y mae'r Comisiwn yn ei rheoli.

[...] it was taking a measured approach that created that greater degree of underspend on vacancies.”²⁸

32. Pwysleisiodd Suzy Davies AS fod cyfrifon y Comisiwn wed’u cydgrynhoi’n un cyfanswm cyffredinol. Mae’n rhaid i’r Comisiwn gadw’r cyfle i symud rhywfaint o arian sydd ar gael o un ffrwd ariannu i’r llall²⁹, gan ychwanegu bod yr arian sydd ar gael yn cael ei wario’n effeithlon i dalu costau o ddydd i ddydd.

Ein barn ni

33. Rhennir cyllideb y Comisiwn yn ddwy ran wahanol: un rhan yn ymwneud â’r Aelodau, ac un rhan yn ymwneud â’r Comisiwn fel corff corfforaethol. Cytunwn â’r newid a wnaed i wahanu’n ffurfiol y ddwy ran hyn o’r gyllideb yn dilyn argymhellion a wnaeth y Pwyllgor Cyllid yn ei ymchwiliad i ddefnydd Comisiwn y Cynulliad o’r tanwariant sy’n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, Mai 2018³⁰. Mae hyn wedi golygu bod tanwariant yn erbyn y Penderfyniad hwn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

34. Dylai’r Comisiwn ymdrechu i ddangos rheolaeth ariannol dda (neu werth am arian), yn hytrach na cheisio gwario cymaint o’r gyllideb â phosibl.

35. Ailadroddwn nad yw barn archwilio ddiamedd a set lân o gyfrifon yn dargedau rheoli ariannol addas. Hwyr yw’r lleiaf y dylid ei ddisgwyl gan gorff cyhoeddus. Rydym yn hyderus bod y Comisiwn yn gallu pennu dangosyddion perfformiad allweddol rheoli ariannol llawer mwy uchelgeisiol a’u cyflawni.

Argymhelliad 1. Dylai Comisiwn y Senedd gael gwared ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn y dyfodol a osodwyd i leihau tanwariant a chanolbwyntio, yn hytrach, ar ddefnyddio adnoddau ariannol mor effeithlon â phosibl.

Argymhelliad 2. Dylai Comisiwn y Senedd arwain drwy esiampl drwy osod dangosyddion perfformiad allweddol rheoli ariannol uchelgeisiol sy’n ymdrechu i gael mwy na barn archwilio ddiamedd. Dylai’r targedau ystyried pa mor effeithiol, darbodus ac effeithlon y mae’r Comisiwn yn defnyddio ei adnoddau, a dylid eu rhoi ar waith erbyn blwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf.

²⁸ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 60

²⁹ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 65

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Defnydd Comisiwn y Cynulliad o’r tanwariant sy’n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, Mai 2018

Llywodraethu a rheoli risg

36. Y prif themâu ar gofrestr risg y Comisiwn ddiwedd 2019-20 oedd:

- urddas a pharch (i'r Comisiwn ac i'r Aelodau);
- diwygio cyfansoddiadol;
- Brexit a'r risg gyfansoddiadol ehangach;
- diogelu (newid i ganolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â'r Senedd leuenctid a phobl ifanc yn gyffredinol;
- seiberddiogelwch;
- GDPR;
- Effaith COVID-19³¹.

37. Yn y Datganiad Llywodraethu, mae'r Comisiwn yn nodi bod COVID-19 wedi effeithio ar waith archwilio mewnol a drefnwyd ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Serch hynny:

"Mae adroddiadau archwilio mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae'r Comisiwn yn dangos arfer da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Fodd bynnag, lle caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio. Er enghraifft, mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi trafod canfyddiadau'r adroddiad rheoli absenoldeb yn fanwl ac wedi cytuno bod angen hyfforddi rheolwyr llinell ymhellach"³².

38. Cawsom ein sicrhau gan y Prif Weithredwr a Chlerc bod y Comisiwn wedi cynnal yr un lefelau o reolaeth ariannol, gweithdrefnau caffael a diogelwch data drwy gydol ei ymateb i'r pandemig. Mae'r holl benderfyniadau allweddol wedi'u cofnodi, ac mae proses gwersi a ddysgwyd eisoes ar droed³³.

39. Gwnaethom ofyn am seiberfwlio, ac yn benodol ynghylch pa mor ddiogel yw'r llwyfan fideogynadleda Zoom, a sut y caiff risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio Zoom eu lliniaru.

³¹ Comisiwn y Senedd, **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2019-20**, Mehefin 2020 (tudalen 122)

³² Comisiwn y Senedd, **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2019-20**, Mehefin 2020 (tudalen 114)

³³ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraffau 70-72

40. Dywedwyd wrthym fod Comisiwn y Senedd yn defnyddio Zoom fel llwyfan ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Y rheswm am hyn yw bod Zoom, yn wahanol i lwyfannau fideogynadleda eraill, yn galluogi cyfieithu ar y pryd. Hefyd, nodwyd bod trafodaethau â Microsoft yn parhau ynghylch sut y gellid hwyluso cyfieithu ar y pryd yn Teams. Yn yr un modd, mae'r Comisiwn wedi cynnal deialog adeiladol gyda Zoom, sydd wedi mynd i'r afael â nifer o bryderon diogelwch³⁴.

41. Rhoddodd llythyr y Comisiwn ar 20 Hydref 2020 eglurhad ychwanegol:

“Er bod diogelwch data o fewn plattform Zoom wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf, nid yw'n cydymffurfio'n llawn â safonau diogelwch data'r DU o hyd. Am y rheswm hynny, yn gyffredinol mae'r Comisiwn dim ond yn defnyddio Zoom ar gyfer cyfarfodydd lle bydd y cynnwys yn gyhoeddus, fel y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd cyhoeddus y Pwyllgorau, lle mae angen cyfieithu ar y pryd. Defnyddir Zoom ar gyfer ambell i gyfarfod preifat lle nad oes modd osgoi cyfieithu ar y pryd. Mewn achosion o'r fath mae'n ofynnol i drefnydd y cyfarfod gynnal asesiad risg i sicrhau bod materion llywodraethu gwybodaeth wedi'u hystyried yn llawn”.³⁵

Ein barn ni

42. Rydym wedi cael sicrwydd bod y Comisiwn yn gallu cynnal ei strwythurau penderfynu a llywodraethu drwy gydol argyfwng COVID-19.

43. Rydym hefyd wedi cael sicrwydd bod Zoom a Microsoft wedi cymryd rhan adeiladol mewn trafodaethau â'r Comisiwn am faterion diogelwch a chyfyngiadau ymarferoldeb yn y drefn honno. Fodd bynnag, o gofio ymrwymiad y Senedd i weithio'n ddwyieithog, mae ychydig iawn o achosion, os o gwbl, lle na ddylid sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i'r rhai sy'n bresennol neu'r tystion. Ar hyn o bryd, mae cyfyngiadau Zoom a Teams yn golygu nad yw'n bosibl cynnal busnes preifat yn ddwyieithog mewn modd diogel. Gobeithiwn y bydd y gwaith trafod ac ymgysylltu â Microsoft a Zoom yn parhau fel y gellir dod o hyd i lwyfan cwbl ddwyieithog a diogel ar gyfer cynnal yr holl fusnes.

³⁴ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 76

³⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-22-20 Papur 2, 9 Tachwedd 2020

Staffio

Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

44. Cynhaliodd y Comisiwn Gynllun Ymadael Gwirfoddol yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19. Ceisiwyd cyllideb gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer taliadau i staff o ganlyniad i'r cynllun. Rhoddwyd cymeradwyaeth am hyd at £1.5 miliwn o wariant. Cofnodwyd cost o £1.104 miliwn ar gyfer 24 o becynnau ymadael yng nghyfrifon 2018-19³⁶. Ar 31 Mawrth 2019 nid oedd yr un o'r staff y rhoddwyd cymeradwyaeth iddynt wedi gadael, felly roedd rhwymedigaeth ar y Comisiwn i wneud taliadau i'r aelodau o staff yn ystod 2019-20.

45. Un newid allweddol a ddigwyddodd o ganlyniad i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol oedd ymadawiad Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Comisiwn. Yn hytrach nag ailbenodi i'r rôl honno, penderfynodd y Comisiwn dalu am gyngor cyfreithiol arbenigol ar sail ymgynghori.

46. Pan ofynnwyd pa effaith y mae'r newid hwn wedi'i chael a beth oedd y cynlluniau ar gyfer y dyfodol, cadarnhaodd y Prif Weithredwr a Chlerc ei bod yn hyderus gydag ansawdd y cyngor gan yr ymgynghorydd, y mae ei gontract ar waith tan y diddymiad (Ebrill 2021) a'i fod wedi'i ddarparu yng nghyllideb deiliad blaenorol y swydd. Bydd adolygiad o'r swydd yn cael ei gynnal yn ystod gwanwyn 2021³⁷.

Llesiant, absenoldeb a pherfformiad

47. Y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch gyffredinol ar gyfer 2019-20 oedd 4.00 y cant, o'i chymharu â 3.66 y cant yn 2018-19. Mae hyn yn cyfateb i gollu 8.80 diwrnod gwaith y person ar gyfartaledd (7.75 diwrnod yn 2018-19), sy'n uwch na tharged y Comisiwn, sef 3.8 y cant.³⁸

48. Dywed y Comisiwn ei fod wedi parhau â'i waith ar fentrau i gefnogi a gwella iechyd meddwl a llesiant staff. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi bod absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant bellach yn cyfrif am 29 y cant (wedi gostwng o 35 y cant yn ystod 2018-19) o gyfanswm yr absenoldeb.

³⁶ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon: 2018-19](#), Gorffennaf 2019 (tudalennau 158 - 159)

³⁷ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 87

³⁸ Comisiwn y Senedd, [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2019-20](#), Mehefin 2020 (tudalen 134)

49. Gofynnwyd i'r Comisiwn am y prif heriau y mae'n eu hwynebu wrth gydbwysu llesiant staff, perfformiad staff a chyfraddau absenoldeb staff:

“The difficulties of the current situation have seen staff report an impact on both their physical and mental well-being. We've been undertaking these short pulse surveys that will lead up to our usual annual survey shortly now, in the autumn. I would say absence has dropped considerably, and the absences that we've seen have largely been attributable to resolvable issues—in other words, the particular difficulties posed by the period of lockdown”³⁹.

50. Ychwanegodd y Prif Weithredwr a Chlerc fod y Comisiwn wedi cael canlyniadau cadarnhaol o'i arolygon staff, sy'n dangos bod y cymorth ar gyfer perfformiad a llesiant gan reolwyr llinell ar draws y sefydliad wedi bod yn llwyddiannus. Yn y dyfodol, bydd yr arolygon yn cael eu cynnal gan gwmni allanol a fydd yn darparu gwasanaethau tebyg i Senedd yr Alban. Esboniodd y bydd hyn yn ffordd ddefnyddiol o feincnodi eu hunain yn erbyn deddfwrfa arall.⁴⁰

51. Eglurodd gohebiaeth at y Pwyllgor ar 20 Hydref 2020 fod trafodaethau â darparwr newydd yr arolwg staff yn parhau. Caiff arolwg staff newydd ei lansio ddiwedd mis Tachwedd gyda'r canlyniadau'n debygol o fod ar gael yn ddechrau'r flwyddyn newydd⁴¹.

Proffil y gweithlu

52. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n cynnwys polisiau manwl, camau gweithredu a ffigurau. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi Archwiliad Cyflog Cyfartal ac Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd 2020, a Gwybodaeth Monitro'r Gweithlu a Recriwtio 2019-20. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhoi ystod o wybodaeth fanwl am broffil gweithlu'r Comisiwn a'i gyflog.

53. Mae gan y Comisiwn weithlu cytbwys o ran y rhywiau, gyda rhaniad 51 y cant/49 y cant rhwng menywod a dynion⁴². Ar gyfartaledd, gan gynnwys lwfansau,

³⁹ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 91

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 94

⁴¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-22-20 Papur 2, 9 Tachwedd 2020

⁴² Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Gwybodaeth Monitro'r Gweithlu a Recriwtio 2019-20, Mehefin 2020 (tudalen 42)

mae staff benywaidd yn ennill mwy na'u cymheiriaid gwrywaidd - £39,169 mewn cymhariaeth â £36,507⁴³.

54. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyflwyno adroddiad ar y bwlch cyflog anabledd. Mae'n nodi bod cyfanswm cyflog canolrifol staff nad ydynt yn anabl 4.2 y cant yn uwch na staff ag anabledd. Dywedir fel a ganlyn yn yr adroddiad:

"Er nad oedd y bwlch cyflog anabledd yn peri risg yn archwiliad cyflog cyfartal y llynedd, mae'r bwlch cyflog wedi lleihau hyd yn oed ymhellach ers hynny. Mae hwn yn gam hynod gadarnhaol tuag at gael gwared ar y bwlch cyflog yn llwyr."⁴⁴

55. O ran cyfanswm enillion canolrifol, mae staff LHD+ yn ennill 8.4 y cant yn fwy na'u cymheiriaid heterorywiol, er bod y Comisiwn yn cynnwys cafeat i'r ffigurau hyn drwy esbonio 'Oherwydd y niferoedd isel dan sylw, mae'r data yn sensitif i newidiadau bach yn y garfan honno.'⁴⁵

56. Staff pobl dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yw 4.2 y cant o'r gweithlu, mae 91.8 y cant yn nodi nad ydynt yn BAME, ac nid yw 4 y cant yn nodi eu hil na'u tarddiad ethnig.⁴⁶ 23.6 y cant yw'r gwahaniaeth cyflog ar gyfer cyfanswm cyflog canolrifol CALL rhwng staff nad ydynt yn BAME a rhai BAME. Mewn geiriau eraill: ar gyfanswm enillion canolrifol, mae staff nad ydynt yn BAME yn ennill 23.6 y cant yn fwy o gyfanswm cyflog na staff BAME. Mae hwn yn fwllch cyflog llai na'r hyn a adroddwyd yn 2018-19, sef 38.9 y cant. Mae'r Comisiwn yn datgan bod 50 y cant (neu 10 unigolyn) o staff BAME wedi'u cyflogi ar lefel mynediad. Mae hyn wedi gostwng o 59.1 y cant (13 unigolyn) yn 2018-19⁴⁷.

57. Gwnaethom bwysu ar y Comisiwn ynghylch pam nad oedd gan bobl â chefnidiroedd BAME gynrychiolaeth dda ac yn enwedig mewn rolau rheolwyr canol ac uwch-reolwyr. Roedd gan y Prif Weithredwr a Chlerc yr un pryder â ni, gan nodi nad yw'r bwlch cyflog ethnigrwydd yn ddigon da. Fodd bynnag,

⁴³ Comisiwn y Senedd, [Amrywiaeth a Chynhwysiant: Archwiliad Cyflog Cyfartal ac Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd 2020](#), Mehefin 2020 (tudalen 15)

⁴⁴ Comisiwn y Senedd, [Amrywiaeth a Chynhwysiant: Archwiliad Cyflog Cyfartal ac Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd 2020](#), Mehefin 2020 (tudalen 27)

⁴⁵ Comisiwn y Senedd, [Amrywiaeth a Chynhwysiant: Archwiliad Cyflog Cyfartal ac Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd 2020](#), Mehefin 2020 (tudalen 31)

⁴⁶ Comisiwn y Senedd, [Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Amrywiaeth Gwybodaeth Monitro'r Gweithlu a Recriwtio 2019-20](#), Mehefin 2020 (tudalen 30)

⁴⁷ Comisiwn y Senedd, [Amrywiaeth a Chynhwysiant: Archwiliad Cyflog Cyfartal ac Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd 2020](#), Mehefin 2020 (tudalennau 46 - 48)

gwnaeth awgrymu y bu tuedd dda o welliant ers y llynedd.⁴⁸ Ychwanegodd fod y Pwyllgor yn cymryd camau penodol i hyrwyddo amrywiaeth:

“we’ve included BAME and disability statements in adverts; we’ve looked at the language we use in recruiting and tried to make that better and simpler; we’ve signed up to the civil service jobs portal; we’ve developed new recruitment principles; we’ve been working with Business in the Community, which has a specific expertise in addressing these issues; and we’re going to be continually monitoring our progress by undertaking a short mid-year report on equal pay later in this year to review progress and impact; we’ve signed up to the race charter. I could go on [...]”⁴⁹

58. Gwnaethom bwysu ar y Comisiwn ynghylch rhagfarn ddjarwybod. Gan ddefnyddio’r ystadegau recriwtio yn Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gwybodaeth Monitro’r Gweithlu a Recriwtio 2019-20, canmolwyd y Comisiwn ar wella amrywiaeth ymgeiswyr. Fodd bynnag, gofynnwyd - fel yr awgryma’r data - a oes rhwystrau i rai ymgeiswyr yn ystod y cam cyfweliad, a sut roedd y Comisiwn yn lleihau’r siawns bod hynny’n digwydd. Clywsom fod y Comisiwn wedi cynyddu hyfforddiant ynghylch rhagfarn ddjarwybod ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Roedd cysylltiadau ymgeiswyr hefyd wedi’u cyflwyno i ddeall sut y mae ymgeiswyr yn teimlo drwy gydol y broses recriwtio⁵⁰.

59. Un o’r prif bryderon i’r Pwyllgor hwn dros y blynyddoedd diwethaf fu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol – cynyddu nifer y bobl o gefndiroedd incwm isel sy’n gweithio i’r Comisiwn. Esboniodd y Prif Weithredwr a Chlerc nad ydynt yn cofnodi’r wybodaeth honno yn yr un modd ag maent yn cofnodi gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig eraill. Fodd bynnag, mae eu gwaith allgymorth a’u gwaith ymgysylltu yn sicr yn canolbwyntio ar geisio cyrraedd pobl nad ydynt wedi gallu eu cyrraedd o’r blaen.⁵¹ Ychwanegodd Suzy Davies AS fod cynllun prentisiaeth y Senedd hefyd yn rhywbeth y gall unrhyw un deimlo bod ganddo fynediad ato, a bod y maes gwaith penodol hwn yn rhywbeth sy’n bwysig iawn i’r Comisiynwyr.⁵²

60. Ehangodd llythyr y Comisiwn ar 20 Hydref 2020 ar gynllun prentisiaeth a rhaglen profiad gwaith diweddar y Comisiwn. Mae’r ddau’n canolbwyntio ar wella

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 96

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 97

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 105

⁵¹ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 100

⁵² Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 102

amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a BAME yn benodol drwy '[d]argedu ein cyfleoedd allgymorth, marchnata a phartneriaeth yn effeithiol i ysgolion ac ardaloedd yn y demograffig yr ydym yn ei dargedu.' Hefyd, mae'r llythyr yn dweud bod y Comisiwn yn archwilio cyfleoedd 'i ffurfio partneriaeth â chynllun interniaeth gan brifysgol yng Nghymru a ddatblygwyd i gefnogi myfyrwyr cymwys sy'n llai abl i ariannu eu ffioedd prifysgol.' Mae'r Comisiwn yn gobeithio y bydd ei borth recriwtio ar-lein sydd newydd ei wella yn cefnogi data ac adroddiadau gwell er mwyn 'ein tywys ymhellach yn y maes hwn⁵³.

Ein barn ni

61. Rydym yn falch bod y Comisiwn yn cymryd camau i safoni ei arolygon llesiant staff fel y gellir meincnodi'r canlyniadau gyda seneddau eraill. Rydym hefyd wedi cael sicrwydd y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi canlyniadau'r arolygon hynny.

62. Mae'n rhaid cynnal arolygon staff yn rheolaidd ac mae'n rhaid iddynt ofyn yr un pethau yn yr un modd er mwyn i'r Comisiwn allu olrhain tueddiadau llesiant tymor hir mewn modd ystyrlon. Mae'r un peth yn wir am feincnodi canlyniadau arolwg gyda sefydliadau eraill - mae'n rhaid i'r Comisiwn ofyn yr un cwestiynau i'r staff â'r rhai y mae cyflogwyr yn gofyn i'w staff mewn deddfwrfeydd eraill er mwyn i'r gymhariaeth fod yn ddefnyddiol.

63. Roedd y Pwyllgor yn falch o'r holl gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i wella amrywiaeth a llesiant ei weithlu. Cawsom ein calonogi gan y cynnydd a wnaeth y Comisiwn o ran cau'r bwlch cyflog ethnigrwydd a hanes rhagorol y Comisiwn ar gydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau. Rydym hefyd yn falch bod y Comisiwn, yn dilyn ein hargymhellion, wedi newid y ffordd y mae'n adrodd ar ddata amrywiaeth, sy'n ein galluogi ni - a'r Comisiwn - i fonitro tueddiadau a nodi ac unioni pryderon yn gynnar.

64. Serch hynny, rydym yn annog y Comisiwn i wneud mwy. Roeddem yn poeni am ddata recriwtio'r Comisiwn sy'n awgrymu nad yw ymgeiswyr o gefndiroedd BAME mor llwyddiannus â'u cymheiriaid nad ydynt o gefndir BAME mewn cyfweliad, er bod cyfrannau tebyg o ymgeiswyr yn cyrraedd y rhestr fer.

65. Rydym hefyd yn croesawu'r cynlluniau prentisiaeth, y rhaglenni profiad gwaith a threfniadau eraill gyda phrifysgolion i wella amrywiaeth economaidd-gymdeithasol staff y Comisiwn. Fodd bynnag, er eu bod i'w canmol, prosiectau tymor hir yw'r rhain. Maent yn annhebygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol agos. Mae'n rhaid i'r Comisiwn sicrhau

⁵³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-22-20 Papur 2, 9 Tachwedd 2020

bod ei borth recriwtio newydd yn casglu data am gefndir economaidd ei holl ymgeiswyr. Heb y data hyn, mae'n anodd gweld sut y gall y Comisiwn gymryd camau breision yn y maes hwn.

Casgliad

Casgliad 3. Llongyfarchwn y Comisiwn am ei hanes ar gydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau, yn gostwng y bwloch cyflog ethnigrwydd, y camau cadarnhaol a rhagweithiol y mae'n eu cymryd i wella amrywiaeth ei weithlu, ac am gael statws platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl.

Argymhelliad 3. Dylai'r Comisiwn sicrhau bod arolygon staff yn y dyfodol yn:

- gyson o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau y gellir dod i gasgliadau ystyrlon am dueddiadau tymor hir o'u canfyddiadau;
- gofyn cwestiynau tebyg i arolygon staff deddfwrfeydd a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn i'r canlyniadau gael eu meincnodi.

Argymhelliad 4. Dylai'r Comisiwn gynnal adolygiad o brofiadau ymgeiswyr o gefndiroedd BAME, drwy gydol y broses recriwtio, gyda'r bwriad o gael gwared ar rwystrau i benodi y mae'r adolygiad yn eu datgelu. Dylid cynnal yr adolygiad o fewn blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd. Dylai canfyddiadau'r adolygiad fod ar gael i'r Pwyllgor olynol, ynghyd â chamau adferol y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu cymryd.

Argymhelliad 5. Dylai'r Comisiwn sicrhau bod ei borth recriwtio newydd yn casglu data am amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ei weithlu a'i ymgeiswyr. Dylid cynnwys y data hyn yn adroddiadau data amrywiaeth blynyddol y Comisiwn yn yr un fformat ag y mae'r Comisiwn wedi'i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr BAME (h.y. gyda data sy'n ymwneud â phob cam o'r broses recriwtio).

5. Ymgysylltu

66. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi dangosyddion newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd:

- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau seneddol rhyngwladol perthnasol;
- I ba raddau y mae hyder/diddordeb/dealltwriaeth aelodau o'r cyhoedd o'r Senedd (a'r Cynulliad, gynt) wedi cynyddu yn dilyn eu hymgysylltiad â thimau penodol;
- Cynyddu nifer y dilynwyr ar ein prif sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol;
- Cyrhaeddiad o ganlyniad i hyrwyddo ymchwiliadau pwyllgor a lansio adroddiadau;
- Llwyfannau dosbarthu'r cyfryngau yr ymgysylltwyd â hwy o ganlyniad i hyrwyddo ymchwiliadau pwyllgor a lansio adroddiadau⁵⁴.

67. Gofynnwyd i'r Comisiwn sut y mae'n cydbwysu tri maes blaenoriaeth y Senedd (darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf; ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad; a defnyddio adnoddau'n ddoeth). Cawsom wybod bod y Comisiwn yn edrych ar ei waith yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na defnyddio adnoddau'n benodol yn erbyn y tri maes⁵⁵. Ychwanegodd Suzy Davies AS fod cyfarwyddiaethau'r Comisiwn yn cyd-fynd yn well o lawer â'r tri nod nag erioed, a phwysleisiodd nad yw ymgysylltu'n llai pwysig na'r lleill.⁵⁶

68. Trafodwyd y tueddiadau mewn gweithgareddau allgymorth ac ymgysylltu. Yn benodol, y math o bobl sy'n dilyn prif sianeli cyfryngau cymdeithasol y Comisiwn, ac a ydynt yn cynrychioli swigod gwleidyddol a grwpiau llobio neu o bobl Cymru gyfan. Dywedodd y Prif Weithredwr a Chlerc y canlynol:

“Yes, we do analyse our social media reaction, and it's not just social media as well, because, obviously, not everybody uses that. But that kind of analysis, as well as polling and focus-group work has given us a

⁵⁴ Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2019-20, Mehefin 2020 (tudalennau 87-88)

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 109-111

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 114

clearer picture of how best to engage with the public, as well as their feelings towards us [...]

We're increasing our social media communications and engagement work during this period, and it has seen a big uptick beyond what you see in last year's report. But this won't be at the cost of face-to-face work, which was ongoing until the coronavirus restrictions came into force, and, as soon as it's safe to do so, we will resume our citizen engagement and community engagement activities"⁵⁷.

69. Gwnaethom ofyn am wyl GWLAD a'r Cynulliad Dinasyddion. Yn benodol, ceisiwyd sicrwydd bod mentrau proffil uchel o'r fath yn cynnwys amrywiaeth o bobl â lefelau gwahanol o ymgysylltu â gwaith y Senedd. Dywedwyd wrthym fod y gwerthusiad o'r digwyddiadau ugainmlwyddiant yn galonogol. Cyrhaeddwyd mwy na 2.5 miliwn o bobl drwy wyl GWLAD, a chafwyd mwy na 2,000 o ymweliadau â'r ystâd dros y penwythnos. Roedd traean o'r rhai a aeth i'r wyl yn mynd i ddigwyddiad yn y Senedd am y tro cyntaf, dywedodd traean fod eu hyder mewn cymryd rhan mewn digwyddiadau gwleidyddol wedi cynyddu a nododd 42 y cant o'r rhai a holwyd fod eu diddordeb yn y Senedd hefyd wedi cynyddu⁵⁸.

70. Gwnaethom bwysu ar y Comisiwn ar y gwaith roedd yn ei wneud i nodi ac ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yn benodol. Roeddem yn meddwl pwy oedd y Comisiwn wedi cael trafferth eu cyrraedd hyd yn hyn, a pha strategaethau oedd ganddo ar gyfer cyrraedd y grwpiau hynny yn y dyfodol. Dywedwyd wrthym fod hyn yn rhywbeth sy'n gofyn ffocws ymdrech ar ran y Comisiwn a'i fod yn gwneud y gwaith, ac y bydd mwy ohono i ddod.⁵⁹ Ychwanegodd Suzy Davies AS nad ydynt am iddo gael ei ystyried yn fath penodol o sefydliad sydd o ddiddordeb i bobl benodol yn unig. Felly, dyna rywbeth y mae'r strategaeth ymgysylltu newydd wedi rhoi llawer o sylw iddo.⁶⁰

71. Mae'r llythyr at y Pwyllgor ar 20 Hydref 2020 yn trafod yn fanylach fanteision digwyddiadau ymgysylltu rhithwir - bod mwy o bobl yn eu mynd iddynt - ond y gallant hepgor pobl 'nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn cynnal trafodaethau arlein, neu i'r rhai nad oes ganddynt gysylltiad band eang effeithiol gartref.' Mae'r Comisiwn yn datblygu cynlluniau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol, megis Mis Hanes Pobl Dduon a digwyddiadau sy'n ystyried dyfodol Cymru ar ôl COVID-19. Mae hefyd yn targedu pobl nad oes ganddynt ddiddordeb ym mynd

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraffau 121-122

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 124

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 128

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 130

gwleidyddiaeth yn ei strategaeth cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio iaith bob dydd heb jargon i grynhoi sesiynau Cyfarfod Llawn ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol⁶¹.

Ein barn ni

72. Yn y pen draw, credwn mai cyfrifoldeb y Senedd yw hyrwyddo Senedd Cymru, esbonio'r hyn a wnawn a sut y gall y cyhoedd ymgysylltu â'n gwaith.

73. Rydym yn falch o glywed bod gŵyl GWLAD a digwyddiadau ugainmlwyddiant eraill wedi cyrraedd pobl nad ydynt wedi mynd i ddigwyddiadau'r Senedd o'r blaen. Rydym hefyd yn croesawu'r adnoddau ychwanegol sydd wedi'u defnyddio i wneud gwaith ymgysylltu ychwanegol. Nodwn y datblygiadau diddorol i ymgysylltu â phobl nad oes ganddynt ddiddordeb naturiol ym myd gwleidyddiaeth, ac rydym yn disgwyl strategaeth ymgysylltu newydd y Comisiwn gyda diddordeb.

74. Wedi dweud hynny, rydym yn gochel rhag sicrhau gwerth am arian wrth gynnal gweithgareddau ymgysylltu. Ein prif bryder yw sicrhau bod y Comisiwn yn ymgysylltu â phobl anodd eu cyrraedd, yn hytrach na phobl a sefydliadau sydd eisoes yn rhan o'n gwaith. Gobeithiwn y gall y Comisiwn fonitro effaith ei wariant ar ymgysylltu er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud.

75. Yn y pen draw, mae gennym bryder o hyd, ychydig o fisoedd cyn etholiad i'r Senedd pan ymgysylltir â phobl ifanc a gwladolion tramor am y tro cyntaf erioed, na chlywsom ddigon o fanylion am y grwpiau y mae'r Senedd yn cael trafferth ymgysylltu â hwy a sut y mae'n disgwyl eu cyrraedd.

Argymhelliad 6. Dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff amcanion clir a mesuradwy eu pennu ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu, y caiff effaith y gweithgareddau hynny ei holrhain ac y caiff eu canlyniadau eu gwerthuso yn erbyn amcanion i benderfynu a ydynt yn cynrychioli gwerth da am arian. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon yn flynyddol fel rhan o adroddiad blynyddol y Comisiwn.

Argymhelliad 7. Ddechrau'r Chweched Senedd, dylai'r Comisiwn roi blaenoriaeth i nodi ei grwpiau anodd eu cyrraedd, pennu ffyrdd o ymgysylltu â hwy, a chymryd camau i wneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Dylai'r strategaeth ymgysylltu hon fod ar gael i'r cyhoedd.

⁶¹ [Tystiolaeth ysgrifenedig](#), PAC(5)-22-20 Papur 2, 9 Tachwedd 2020

6. Caffael

76. Mae'r Comisiwn yn mesur cyfran yr hyn a gaffaelir gan gyflenwyr o Gymru. Mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy ddangosydd perfformiad allweddol a osodir ar 43 y cant o wariant cyflenwyr i ddigwydd gyda chwmnïau o Gymru erbyn mis Mai 2020. Mae'r cyfrifon yn adrodd mai 39 y cant yw gwariant caffael y Comisiwn yn 2019-20 gyda chyflenwyr o Gymru, sy'n gynnydd o'r llynedd, sef 38 y cant⁶².

77. Gofynnwyd i'r Comisiwn a oedd targed 43 y cant yn ddigon uchelgeisiol, o gofio bod adnoddau'n cael eu dyrannu i Comisiwn y Senedd er budd pobl Cymru. Dywedodd y Prif Weithredwr a Chlerc fod y targed 43 y cant ychydig yn rhy uchelgeisiol mewn gwirionedd. Esboniodd mai un anhawster mawr wrth gaffael mwy gan gyflenwyr o Gymru yw mai ein gwariant mawr yw cyfleustodau – pŵer a gwres, TGCh a rheoli cyfleusterau – ac ychydig o gyflenwyr o Gymru sydd, os o gwbl, yn y meysydd hyn. Ychwanegodd fod y Comisiwn yn gobeithio caffael mwy gan gyflenwyr o Gymru mewn meysydd eraill, megis darlledu ac arlwyo. Gall torri contractau mawr yn elfennau llai helpu cwmnïau llai o faint i ennill tendrau⁶³.

78. Yn ei llythyr dilynol, ychwanegodd y Prif Weithredwr a Chlerc fod y Comisiwn yn ceisio penodi aelod newydd o staff i'r tîm caffael er mwyn 'ymgysylltu mwy â chyflenwyr yng Nghymru a deall yn well y gwasanaethau y gallant eu darparu'. Mae'r camau a gymerir gan y Comisiwn ar hyn o bryd i hybu gwariant gyda chwmnïau o Gymru yn cynnwys:

- Ymgysylltu â sefydliadau megis Siambr Fasnach De Cymru;
- Hysbysebu contractau dros £25,000 ar lwyfan GwerthwchiCymru;
- Rhannu contractau'n lotiau er mwyn galluogi cwmnïau llai o faint i dendro.

79. Mae'r llythyr yn ychwanegu y bydd contract arlwyo presennol y Comisiwn yn dod i ben yn 2021. Bydd angen adolygu'r contract arlwyo oherwydd effaith COVID-19 ar weithio'n hyblyg ac, felly, lefelau'r galw am wasanaethau arlwyo ar y safle⁶⁴.

⁶² Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2019-20, Mehefin 2020 (tudalen 92)

⁶³ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 144-154

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5-)22-20 Papur 2, 9 Tachwedd 2020

Ein barn ni

80. Rydym yn croesawu'r gwaith y mae'r Comisiwn yn ei wneud ar hyn o bryd i ymgysylltu â mwy o gyflenwyr o Gymru, ac rydym wedi cael sicrwydd y bydd gwaith y tîm caffael yn canolbwyntio ar hyn yn y dyfodol.

81. Fodd bynnag, ni chredwn fod targed 43 y cant o gaffael gyda chyflenwyr o Gymru yn ddigon uchelgeisiol. Dylai'r Comisiwn fod yn gosod esiampyl i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.

82. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu lle nad oes llawer o gwmnïau o Gymru, os o gwbl, sy'n darparu rhai gwasanaethau. Rydym hefyd yn ymwybodol bod angen cydbwysu caffael gyda chwmnïau o Gymru â sicrhau gwerth am arian. Rydym yn cydnabod mai'r Pwyllgor hwn fyddai'r cyntaf i wrthwynebu pe na bai'r Comisiwn yn defnyddio adnoddau'n ddoeth.

83. Serch hynny, credwn fod lle clir i fwy gael ei wneud yn y maes hwn. Gobeithiwn y bydd y Comisiwn yn blaenoriaethu caffael gan gyflenwyr o Gymru, ac y bydd yn gweithio ochr yn ochr â chyrrff cyhoeddus eraill sydd wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn.

Argymhelliad 8. Dylai'r Comisiwn gynyddu caffael gan gyflenwyr nwyddau a chynhyrchion o Gymru sydd o darddiad Cymreig, oni bai nad ydynt ar gael am gost resymol. Dylai gymryd camau i alluogi mwy o gwmnïau o Gymru i gynnig am gontractau, megis drwy rannu contractau mawr yn rhai llai. Dylai camau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd yn y maes hwn gael eu cyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol wrth i'r ganran gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Argymhelliad 9. Dylai'r Comisiwn weithio ochr yn ochr â chyrrff cyhoeddus eraill, megis Llywodraeth Cymru, i fwyafu'r gyfran a gaffaelir gyda chyflenwyr o Gymru. Dylai'r Comisiwn ysgrifennu at y Pwyllgor hwn neu'r Pwyllgor olynol erbyn mis Medi 2021 i nodi pa ymgysylltiad y mae wedi'i wneud â chyrrff cyhoeddus eraill, a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wella gwariant gyda chyflenwyr o Gymru o ganlyniad.

7. Cynaliadwyedd

Targedau cynaliadwyedd

84. Mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio tuag at y targedau a ganlyn, fel y nodir yn ei adroddiad cynaliadwyedd ar gyfer 2019-20:

- Lleihau allyriadau ynni 30 y cant arall erbyn 2021 o gymharu hynny â 2012-13;
- Gwella effeithlonrwydd teithio mewn car ar gyfer busnes 10 y cant erbyn 2021, o gymharu hynny â 2013-14;
- Cyflawni dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2021;
- Defnyddio 5 y cant yn llai o ddŵr erbyn 2021, o gymharu hynny â 2014-15.

85. Gwnaethom ofyn i'r Comisiwn am y camau y mae'n eu cymryd i leihau ôl troed carbon ystâd y Senedd ac a fydd y Comisiwn yn niwtral o ran carbon erbyn 2030:

“[...] taking advantage of any technological improvements that emerge over the next few years, but more importantly driving culture change and all of us working in a different way, including working from home, gives us significant potential to tap into”.⁶⁵

86. Clywsom fod rhai heriau sylweddol i'w goresgyn o hyd. Yng nghyd-destun teithio, er enghraifft, mae 20 y cant o'r allyriadau teithio sy'n gysylltiedig â chostau teithio busnes y Cynulliad yn 2019-20 yn ymwneud â theithiau awyr, gan yr Aelodau'n bennaf⁶⁶. Yn yr un modd, bydd yn anodd annog staff i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, yn hytrach na gyrru yng nghyd-destun COVID-19. Awgrymwyd y gallai mwy o staff yn gweithio gartref o leiaf rywfaint o'r amser wneud tipyn i wrthbwysu'r effeithiau hynny.

Effaith COVID-19 ar ystâd y Senedd

87. Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor ar 20 Hydref 2020, esboniwyd, fel rhagofal yn ystod pandemig COVID-19, fod system oeri aer y Comisiwn wedi'i diffodd. 'Mae

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 166

⁶⁶ Senedd Cymru – Comisiwn y Senedd, Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2019-20, Mehefin 2020, ffigur 4, tudalen 12

mannau agored y Senedd wedi'u hawyru'n naturiol ac mae'r system yn cael ei chynnal fel rhan o'n trefniadau cynnal a chadw arferol.' Fodd bynnag, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, cynhaliwyd archwiliad o ffenestri Tŷ Hywel i sicrhau y gellid eu hagor:

“Oherwydd oedran a chyflwr y ffenestri, mae nifer o ffenestri nad oes modd eu hagor na'u hatgyweirio. Bydd y Comisiwn yn ystyried dichonoldeb prosiect i osod ffenestri newydd yn Nhŷ Hywel yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys manteisio ar awyru naturiol cyn belled ag y bo modd er mwyn cefnogi ein strategaeth carbon niwtral hyd at 2030, ac i sicrhau amgylchedd gwaith mwy cyfforddus yn y swyddfeydd”.⁶⁷

88. Mae'r llythyr yn ychwanegu bod y galw am ddefnyddio dŵr ar draws yr Ystâd wedi gostwng 77 y cant rhwng mis Ebrill a mis Awst o gymharu hynny â'r un cyfnod y llynedd.

Ein barn ni

89. Llongyfarchwn y Comisiwn ar ei lwyddiannau hyd yn hyn o ran lleihau ei ôl troed carbon. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr effaith drawsnewidiol y mae COVID-19 yn debygol o'i chael ar batrymau gwaith. Mae'n amlwg y bydd angen ailystyried llawer o'i dargedau cynaliadwyedd yn sgil newidiadau i arferion busnes yn y dyfodol. Er enghraifft, os yw cyfran sylweddol o weithwyr y Comisiwn yn gweithio gartref, bydd angen ystyried newidiadau i'w defnydd ynni a dŵr domestig mewn targedau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

90. Rydym hefyd yn cydnabod bod llawer o effeithiau mwyaf sylweddol ar effaith amgylcheddol y Comisiwn yn cael eu llywio gan fusnes y Senedd, nad oes gan y Comisiwn reolaeth lawn drosto. Bydd effaith amgylcheddol ffyrdd yr Aelodau a'u staff cymorth o weithio hefyd yn sylweddol. Bydd angen i'r ffyrdd hynny o weithio gael eu penderfynu gan Bwyllgor Busnes y Chweched Senedd ochr yn ochr â'r Bwrdd Taliadau, y Comisiwn ac eraill cyn i'r cyfrifoldeb ddod i'r Comisiwn weithredu'r penderfyniadau hynny mewn modd cynaliadwy.

Argymhelliad 10. Pan fydd y Pwyllgor Busnes, y Bwrdd Taliadau, y Comisiwn ac eraill wedi penderfynu trefniadau busnes y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd, dylai'r Comisiwn gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i dargedau cynaliadwyedd yn sgil COVID-19 a'i effaith ar batrymau gweithio. Dylai'r targedau newydd hyn fod yn fwy beiddgar ac yn fwy uchelgeisiol na'r rhai diwethaf, a dylid eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2021 fan bellaf.

⁶⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-22-20 Papur 2, 9 Tachwedd 2020